

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Materion Ewropeaidd

Cynhyrchwyd gan swyddfa'r UE
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhifyn 24_Gaeaf 2011

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf eich croesawu i'r 23ain rhifyn o Faterion Ewropeaidd, sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â materion Ewropeaidd.

Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod prysur o ran materion Ewropeaidd, ac mae'n bleser gennyf weld bod ein Pwyllgorau'n cyfranogi cymaint yn y maes hwn sydd mor bwysig i Gymru. Mae cymaint â 40 o'r 47 Aelod Cynulliad yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith cysylltiedig ag Ewrop yn ein pwyllgorau, a bu o leiaf tair dadl ynghylch Ewrop yn y Cyfarfod Llawn yn ystod tymor yr hydref a'r tymor hwn.

Dyddiau cynnar yw hi, efallai, ond mae tystiolaeth gadarnhaol iawn yn dangos y gall prif ffrydio hybu cyfranogiad ac, mewn cyfarfod anffurfiol o Gadeiryddion y Pwyllgorau yn ddiweddar, roeddwn yn falch o glywed bod y pwyllgorau wedi cymeradwyo'r dull newydd hwn â chryn frwdfrydedd.

Mae'r ddau Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd gan y **Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd** wedi cwblhau cam cyntaf eu gwaith ar ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Maent yn bwriadu ymweld â Brwsel yn ystod y misoedd nesaf i drafod prif ddarganfyddiadau'r gwaith hwn. Bydd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfod ag Aelodau Seneddol Ewropeaidd Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd, Cynrychiolaeth Barhaol y DU yn yr UE a rapporteurs Senedd Ewrop ar y cynigion deddfwriaethol hyn.

Mae'r **Pwyllgor Menter a Busnes** hefyd wedi cwblhau cam cyntaf ei waith yn ymwneud â Chronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol sydd, i bob pwrpas, yn caniatáu i'r Comisiwn Ewropeaidd fwrw ymlaen â'r pecyn deddfwriaethol drafft a gyhoeddodd ym mis Hydref. Bydd y Pwyllgor hwn yn cynnal ymchwiliad cysylltiedig i Horizon 2020, Fframwaith yr UE ar gyfer ymchwil ac arloesi, gan ganolbwyntio'n benodol ar y modd y gall Cymru greu synergeddau â Chronfeydd Strwythurol yr UE i gryfhau cyfraniad Cymru yn rhaglen ymchwil hynod gystadleuol yr UE.



Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael a sefydlwyd gan y Pwyllgor Menter a Busnes yn parhau i ymchwilio i Gyfarwyddebau drafft yr UE, ac mae wedi lansio ymchwiliad newydd i'r cysylltiad rhyngwladol rhwng ein meysydd awyr a'n porthladdoedd, sy'n uniongyrchol berthnasol i Gyfleuster Cysylltu Ewrop, y cyhoeddwyd cynigion yn ei gylch fis Hydref.

Bu'r **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol** yn ystyried ei fater cyntaf yn ymwneud â sybsidiaredd yn ei gyfarfod cyntaf ar 20 Chwefror, sy'n tarddu o'r ymchwiliad i gaffael cyhoeddus y cyfeirir ato uchod, ac rydym wedi rhoi gwybod i'r Dŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin am y pryderon posibl er mwyn iddynt fedru ystyried y rhain pan fyddant yn trafod Cyfarwyddebau drafft yr UE.

Bydd y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn ystyried modelau perchenogaeth gwahanol yn yr UE yn ystod ei ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn, tra bydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ystyried arfer da yn yr UE yn ei ymchwiliad i fabwysiadu yng Nghymru. Yn olaf, mae disgwyl i'r Pwyllgor Cyllid gwblhau ei ymchwiliad i effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru y tymor hwn.

Rhoddodd **Mark Drakeford AC**, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y wybodaeth hon i gyfarfod Fforwm EC(UK) a gynhaliwyd ar 23 Ionawr yn Senedd yr Alban, ac sy'n dwyn Cadeiryddion perthnasol o Dŷ'r Arglwyddi, Tŷ'r Cyffredin, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban ynghyd i ddelio â materion yn ymwneud ag Ewrop. Hefyd paratowyd ymateb manwl i **Adolygiad Tŷ'r Arglwyddi o Raglen Waith Comisiwn Ewrop ar gyfer 2012**, gan amlinellu'r meysydd hynny y gallai Pwyllgorau'r Cynulliad ymwneud â nhw yn y dyfodol.

Hoffwn ddiolch i Dr Gerhard Stahl, Ysgrifennydd Cyffredinol Pwyllgor y Rhanbarthau am ganiatáu i ni ddefnyddio'u cyfleusterau fideo-gynadledda ardderchog mor aml, gan ganiatáu i ni gynnal sesiynau tystiolaeth gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd yn ystod y misoedd diwethaf yn ogystal â sesiynau anffurfiol â'n Swyddfa ym Mrwsel. Bu hyn yn amhrisiadwy.

Rwyf hefyd yn falch iawn o nodi'r holl ymweliadau â Brwsel a mannau eraill gan Aelodau'r Cynulliad; bu **William Graham AC** ac **Antoinette Sandbach AC** ym Mrwsel ym mis Rhagfyr, bu **Ieuan Wyn Jones AC** a **Llŷr Huws Gruffydd AC** ym Mrwsel ar 14-15 Chwefror, ac aeth **Christine Chapman AC**, **Julie Morgan AC** a **Keith Davies AC** i'r Ffindir ar 15-16 Chwefror.

Croesawyd nifer o ymwelwyr amlwg i'r Cynulliad dros y misoedd diwethaf. Roeddwn yn falch iawn o groesawu Llysgennad Denmarc yn y DU, Ei Hardderchowgrwydd Anne Hedensted Steffensen, i'r Cynulliad ar 10 Ionawr, i drafod blaenoriaethau Denmarc yn ystod y chwe mis y bydd yn Llywyddu'r UE â Chadeiryddion y Pwyllgorau.

Edrychwn ymlaen at groesawu Senedd Fflandrys ar Ddydd Gŵyl Dewi. Hwn fydd yr ymweliad cyntaf o'i fath gan un o gyd-aelodau rhwydwaith CALRE o seneddau a chynulliadau rhanbarthol Ewrop.

**Rosemary Butler AC**
**Llywydd**

## Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

### Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

– **Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin:** ar 30 Ionawr, anfonwyd llythyrau at Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd a'r rapporteurs yn Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau, yn gosod allan canfyddiadau cychwynnol y Grŵp. Bydd Jim Paice AS, Gweinidog Gwladol Amaethyddiaeth a Bwyd y DU, yn ymddangos gerbron y Grŵp ar 15 Mawrth.

– **Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i Ddiwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin:** cymerodd y Grŵp dystiolaeth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Materion Morol a Physgodfeydd y Comisiwn Ewropeaidd ar 18 Ionawr. Mae'n bwriadu anfon llythyrau at Lywodraeth Cymru, y Comisiwn Ewropeaidd, rapporteurs yn Senedd Ewrop a Phwyllgor y Rhanbarthau ddechrau mis Mawrth.

### Y Pwyllgor Menter a Busnes

– **Cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014–2020:** cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth gyda rhanddeiliaid ym maes addysg uwch, llywodraeth leol, y sector gwirfoddol a busnesau Cymru ar 11 Ionawr a chyda'r Dirprwy Weinidog ar 19 Ionawr. Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad ar ei ymchwiliad yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Chwefror.

– **Ymchwiliad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael i ddylanwadu ar Foderneiddio'r polisi Caffael Ewropeaidd:** drwy gydol mis Chwefror, bydd y grŵp yn parhau i gynnal trafodaethau anffurfiol preifat â rhanddeiliaid allweddol o Gymru, Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU am oblygiadau posibl Cyfarwyddebau Drafft yr UE i Gymru. Mae'r Grŵp wedi pwysleisio pryderon posibl ynghylch trosi'r cyfarwyddebau yng Nghymru a sybsidiaredd. Mae wedi tynnu sylw Gweinidogion Cymru a Phwyllgorau Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi/Tŷ'r Cyffredin at hyn. Bydd y Grŵp yn cyflwyno'i ganfyddiadau i'w Pwyllgor Menter a Busnes cyn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru a/neu Lywodraeth y DU, fel y bo'n briodol.

– **Adfywio canol trefi:** Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 25 Ionawr. Disgwylir ymateb Llywodraeth Cymru i'r 21 argymhelliad tua diwedd mis Mawrth, a chynhelir dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth.

– **Ymchwiliad i gysylltiadau rhyngwladol drwy borthladdoedd a meysydd awyr Cymru:** Mae'r Pwyllgor wedi lansio ymchwiliad ac yn galw ar bobl i anfon tystiolaeth ysgrifenedig i'r Clerc erbyn 29 Chwefror. Bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth lafar yn ystod mis Mawrth, gan gynnwys cyfarfod ar y cyd yng Nghaerdydd sy'n cael ei gynnal yr un pryd â Phwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin.

– **Horizon 2020:** Bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad byr i gynigion Horizon 2020, ac mae dwy sesiwn dystiolaeth wedi'u trefnu ar gyfer 28 Mawrth a 26 Ebrill.

### Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

– **Monitro sybsidiaredd:** cyfrifoldeb arweiniol am ystyried materion yn ymwneud â sybsidiaredd mewn perthynas â'r holl gynigion deddfwriaethol newydd sy'n dod o'r UE ac sy'n berthnasol i gymwyseddau datganoledig y Cynulliad (yn unol â Phrotocol Sybsidiaredd Cytundeb Lisbon). Yn ei gyfarfod ar 20 Chwefror, bu'r Pwyllgor yn ystyried pryder posibl yn ymwneud â sybsidiaredd yng nghyswllt Cyfarwyddebau Caffael Cyhoeddus drafft yr UE. Mae hyn yn deillio o waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (y cyfeirir ato uchod).

**Y Pwyllgor Cyllid**

– **Effeithiolrwydd Ariannu Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru 2007–2013:** caiff sesiynau tystiolaeth lafar eu cynnal yn ystod tymor y gwanwyn, a bydd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector preifat, mentrau cymdeithasol, llywodraeth leol, Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl cyhoeddi'i ganfyddiadau ym mis Mai 2012.

**Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc**

– **Ymchwiliad i fabwysiadu:** Cyhoeddodd y Pwyllgor ei fod yn galw am dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad newydd hwn ar 9 Rhagfyr, a daeth y cyfnod i ben ar 3 Chwefror. Mae sesiynau tystiolaeth lafar wedi'u cynllunio tan yr haf. Yn dilyn y sesiwn ar 1 Rhagfyr pan gafwyd y wybodaeth ddiweddaraf am yr UE, a phan ddywedodd yr Aelodau yr hoffent ystyried arfer da a gwybodaeth gymharol o wledydd eraill Ewrop, mae'n bosibl y bydd yr ymchwiliad hwn yn cynnwys sesiwn neu wybodaeth gefndir am arferion mabwysiadu yn yr UE a/neu'r tu hwnt.

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

– **Y wybodaeth ddiweddaraf am yr UE:** ar 25 Ionawr, trafododd yr aelodau y gwaith posibl y gallai'r Pwyllgor ymgymryd ag ef yn y dyfodol o ran materion yn ymwneud ag Ewrop, a hynny'n dilyn y wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd ar 8 Rhagfyr. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried rhai agweddau ar yr hyn sy'n digwydd yn yr UE fel rhan o'i ymchwiliad i ofal preswyl i bobl hŷn, gan ganolbwyntio'n benodol ar fodelau perchenogaeth yng ngwledydd eraill Ewrop (gan gynnwys yr Iseldiroedd a'r Almaen).

## Gweithgareddau allanol Aelodau mewn perthynas â busnes y Cynulliad

– Rhwng 19 a 20 Rhagfyr, bu **William Graham AC** ac **Antoinette Sandbach AC** ym Mrwsel yn cymryd rhan mewn cyfres o ymweliadau â swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd, UKREP, a rhwydweithiau'r UE, i drafod diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, Cronfeydd Strwythurol yr UE, Horizon 2020, ac effaith polisïau'r UE ar fusnesau bach.

– Ar 31 Ionawr, aeth **Rhodri Glyn Thomas AC** i Frwsel i gyfarfod â Chomisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau, sy'n ystyried adroddiad drafft ar y cynigion i ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin.

– Rhwng 12 a 13 Chwefror, aeth **Christine Chapman AC, Julie Morgan AC a Keith Davies AC** i Helsinki i gael gwybodaeth am y modd y mae'r gwaharddiad ar gosbi plant yn gorfforol yn cael ei orfodi yn y Ffindir.

– Rhwng 14 a 15 Chwefror, aeth **Ieuan Wyn Jones AC** a **Llŷr Huws Gruffydd AC** i Frwsel i gymryd rhan mewn cyfres o gyfarfodydd i drafod amaethyddiaeth, Cronfeydd Strwythurol yr UE, Horizon 2020 a pholisi ymchwil ac arloesi'r UE.

– Rhwng 15 a 16 Chwefror bu **Rhodri Glyn Thomas AC** ym Mrwsel ar gyfer Cyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau.

## Ymweliadau rhyngwladol â'r Senedd

– Ar 9 Rhagfyr, aeth y **Dirprwy Lywydd, David Melding AC** i Frwsel i gymryd rhan mewn cynhadledd a drefnwyd gan Senedd Fflandrys. Thema'r gynhadledd oedd 'Ffederaleiddiaeth a rhanbarthiaeth, stori arall bob tro'.

– Ar 9 Ionawr, daeth **Llysgennad Denmarc, Mrs Anne Hedensted Steffensen** i'r Cynulliad i nodi dechrau'r cyfnod o chwe mis pan fydd Denmarc yn Llywyddu Cyngor yr UE ac i gyfarfod â'r Llywyddion, Prif Weinidog Cymru, yr Aelodau a rhanddeiliaid yr UE yng Nghymru. Ar 10 Ionawr, rhoddodd y llysgennad dystiolaeth i Gadeiryddion y Pwyllgorau am flaenoriaethau Denmarc yn ystod ei chyfnod o chwe mis yn Llywyddu'r UE.

– Ar 1 Mawrth, bydd dirprwyaeth o Senedd Fflandrys, dan arweiniad y **Llefarydd Jan Peumans**, yn ymweld â'r Cynulliad i ddysgu rhagor am y broses ddatganoli yn y DU ac am flaenoriaethau'r Cynulliad.

– Ar 6 Mawrth, bydd **Syr Alan Haslehurst, Cadeirydd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad**, yn ymweld â'r Cynulliad i gymryd rhan mewn cyfres o gyfarfodydd â Chadeirydd a Phwyllgor Gwaith Cangen Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad, a bydd yn cyfarfod yn breifat â'r Llywydd.

– Ar 15 Mawrth, bydd **Uwch Gomisiynydd Singapore, Mr T Jasudasen**, yn ymweld â'r Cynulliad i gymryd rhan mewn cyfres o gyfarfodydd ac i gyfarfod yn breifat â'r Llywydd.

– Ar 21 Mawrth, bydd **Llysgennad Ukraine, Mr Ünal Çeviköz** yn ymweld â'r Cynulliad i gymryd rhan mewn cyfres o gyfarfodydd ac i gyfarfod yn breifat â'r Llywydd.

**Lincs**
– Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
– Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
– Tudalennau'r Pwyllgorau
– Gwasanaeth Ymchwil

**Am ragor o wybodaeth**–

**Cysylltwch â:**
Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (**Gregg.Jones@wales.gov.uk**)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu
Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
**archebu@cymru.gov.uk**

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rydym yn anfon yr e-bost hwn atoch gan ein bod yn credu y bydd o ddiddordeb i chi. Os nad ydych am i ni anfon rhifynnau eraill o'r cylchlythyr atoch, neu os nad ydych wedi cael yr e-bost hwn yn uniongyrchol ac yn awyddus i ni ychwanegu'ch enw at y rhestr bostio, anfonwch e-bost at Gregg Jones.